SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## GORFFENNHAF-MEDI 2023

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur: sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



## Canewin

Yn Sir Gaerfyrddin mae'r Canewin (*Hylotelephium telephium*) i'w weld yn fwyaf cyffredin ar gloddiau, ac mae'r blodau coch rhosliw yn ymddangos ar ddiwedd yr haf. Mae'n rhywogaeth frodorol ond mae wedi cael ei chyflwyno i fannau eraill, yn benodol i Ogledd America lle caiff ei hystyried yn rhywogaeth oresgynnol.

Yn y gorffennol arferai'r Rhufeiniaid ddefnyddio'r planhigyn i wella clwyfau. Gall y coesau a'r dail storio dŵr ar ôl cael eu torri, sy'n ei helpu i oroesi sychdwr - dyna pam y caiff ei alw yn Saesneg yn *livelong*.



## Cyngaf

Mae'r Cyngaf Bychan *(Arctium minus)* yn gyfarwydd i ni fel y planhigyn gludiog a ddefnyddir mewn gemau pan gaiff y pennau blodau gludiog eu taflu at ei gilydd. Mewn gwirionedd mae'n defnyddio'r pennau hadau bachog hyn i helpu i wasgaru ei hadau trwy lynu at ffwr anifeiliaid a dillad. Mae'n blanhigyn cyfarwydd ar dir sydd wedi'i droi ac ar ochr ffyrdd. Yn draddodiadol roedd y rhywogaethau cyngaf yn cael eu defnyddio at amryw ddibenion meddygol - roedd yr hadau'n cael eu defnyddio i drin y glunwst neu seiatica! Mae'n blodeuo o fis Gorffennaf i fis Medi ac yn denu amrywiaeth o bryfed.



## Britheg Werdd

Mae'r Fritheg Werdd (*Speyeria aglaja*) yn iâr fach yr haf fawr o liw oren, gyda lliw gwyrdd tywyll o dan yr ôl-adain, sy'n rhoi iddi ei henw. Mae hi wedi prinhau mewn rhannau o ganol a dwyrain Lloegr ond mae'n dal i gael ei chofnodi yn eithaf cyffredin yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynefinoedd a ffefrir ganddi yn cynnwys rhodfeydd trwy goetiroedd ac mae'r lindys yn bwydo ar y Fioled Gyffredin (*Viola riviniana*). Gall fod yn anodd adnabod yr oedolion gan eu bod yn hedfan yn gyflym o flodyn i flodyn, gan fwydo ar neithdar y bengaled ac ysgall. Rhaid i chi fod yn sionc os ydych am eu gwylio!



## Glaswelltir 'garw'

Ardaloedd o'r hyn y gellid eu galw'n weiriau 'garw' o wahanol uchderau gyda'r planhigion blodeuol 'cynefinol' yn darparu lloches i bryfed. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu'r cyflenwad o fwyd i adar ac ystlumod, yn ogystal â bod yn gynefin pwysig i lawer o rywogaethau eraill gan gynnwys mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid.

Yn ogystal â darparu amrywiaeth mewn strwythur glaswelltir, mae glaswelltir garw a phlanhigion cynefinol tal yn darparu lloches a chynefin gaeafu - megis i bryfed ar waelod twmpathau glaswellt, mewn coesynnau gwag a phennau blodau. Yma gall planhigion blodeuol flodeuo yn hwyr i'r tymor.

Mae glaswelltir garw yn ystod y tymor nythu adar yn darparu cyflenwad lleol o bryfed, sy'n ei gwneud yn haws i adar fwydo'n agos i'r nyth.

Mae planhigion tal a glaswelltir garw yn fwyaf gwerthfawr pan fyddant yn cynnal blodau helaeth a dilyniant da o flodau o'r gwanwyn hyd ddiwedd yr haf a gallant fod yn ffynonellau hollbwysig o baill a neithdar. Ymhlith y blodau pwysig yn hyn o beth y mae gorthyfail, efwr, ysgall, cribau'r pannwr gwyllt a'r bengaled.



## Chwilen Grwban

Ceir sawl rhywogaeth o chwilod crwban. Mae gan eu larfae ddull unigryw o'u hamddiffyn eu hunain - maent yn ffurfio haen amddiffynnol o groen wedi'i ddiosg a thom ar eu cefnau i guddliwio eu hunain ac atal ysglyfaethwyr.

Pan fydd rhywbeth yn tarfu arnynt mae'r oedolion yn ymddwyn yn union fel crwbanod, gan dynnu eu hantenau a'u traed i mewn, a thynnu eu 'cragen' i lawr yn dynn o'u cwmpas wrth iddynt afael yn sownd yn y ddeilen y maent arnynt.



## Cnau collen

Mae cnau collen yn boblogaidd gyda llawer o famaliaid bach. Yma mae anifail (llygoden y coed mwy na thebyg) wedi'u casglu ynghyd mewn man sych diogel i'w bwyta.  Mae llygod y coed yn aml yn creu celc o gnau wedi'u cnoi. Maent yn gadael olion dannedd ar wyneb y gneuen ac ar draws ymyl y twll. Gall y twll fod naill ai'n grwn neu'n afreolaidd ei siâp.



## Gwalchwyfyn Llygeidiog

Roedd hwn yn gofnod ffodus yn ystod y dydd ar laswelltir corsiog yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Gwalchwyfyn Llygeidiog (Smerinthus *ocellata*) yn dwyllodrus. Pan fydd yn gorffwyso mae'n wyfyn nodedig, ond o liw brown yn bennaf, gyda chlwt tywyll amlwg y tu ôl i'r pen. Daw'r ystyr y tu ôl i'w enw i'r amlwg pan fydd rhywbeth yn tarfu arno - bryd hynny bydd yn agor ei adenydd i ddatgelu'r cylchoedd llygaid mawr glas ar ei adenydd ôl o liw pinc. Mae ganddo adenydd sy'n agor yn llydan ac mae'r lindys yn bwydo ar goed helyg a choed afalau, ond hefyd Aethnen a Phoplys.



## Y Coediwr

Mae'r Coediwr (*Adscita statices*) yn wyfyn sy'n hedfan yn ystod y dydd. Ar un adeg roedd wedi'i ddosbarthu'n eang drwy Gymru gyfan ond mae ei ddosbarthiad wedi dirywio'n sylweddol. Er gwaethaf ei enw, mewn glaswelltir llaith y mae i'w ganfod yn bennaf yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r benywod yn dodwy wyau ym misoedd Mehefin a Gorffennaf ar blanhigion cynhaliol y lindys - Suran y Cŵn a Suran yr Ŷd. Mae'n wyfyn sydd â blaenoriaeth uchel gan Gwarchod Glöynnod Byw Cymru.




## Ffwng Coesyn Brigog

Mae'r ffwng Coesyn Brigog (*Dendrocollybia racemosa*) fel arfer yn tyfu ar ffrwythgyrff pydredig ffyngau eraill. Prin y'i gwelir yn Sir Gaerfyrddin - efallai oherwydd ei fod yn fach ac yn ddi-nod.

Yr hyn sy'n gwneud y rhywogaeth yn nodedig yw ei choesyn anarferol, sydd wedi'i orchuddio â brigau ochrol byr. Mae'r brigau yn aml yn cynhyrchu pennau llysnafedd sfferaidd ar eu blaenau chwyddedig. Mae hi bob amser yn werth edrych yn agosach!




## Picwnen Goch


Mae'r Bicwnen Goch neu'r Hornet (*Vespa crabro*), **na** ddylid ei chymysgu â'r [Hornet Asiaidd Fawr]() ymledol, yn beilliwr pwysig ac yn ysglyfaethwr ar rywogaethau sy'n bwyta planhigion a chnydau, felly gall fod yn rheolwr plâu defnyddiol. Er eu bod yn dal ysglyfaeth yn bennaf i'w bwydo i'w larfae, maent yn bwydo eu hunain ar sylweddau sy'n rhoi llawer o egni iddynt megis neithdar a nodd. Dyma bicwnen gymdeithasol fwyaf Prydain, efallai eu bod yn edrych yn frawychus ond nid ydynt yn ymosodol os gadewir llonydd iddynt.



## Gwenynen dorri dail

Ydych chi wedi gweld dail gyda thyllau twt wedi'u torri ynddynt? Mae'n ddigon posibl mai gwenynen dorri dail (Megachilidae) fenywaidd wnaeth hyn. Mae'r gwenyn unig hyn yn defnyddio'r darnau i adeiladu'r celloedd (hyd at 20) yn y nyth i fagu ei hepil. Mae'n well gan wahanol rywogaethau o wenyn torri dail wahanol rywogaethau o blanhigion.

Maent yn bryfed peillio pwysig. Mae gwenyn torri dail benywaidd yn enwedig yn casglu ac yn cludo paill ar y blew ar ochr isaf ei habdomen yn hytrach na mewn "basgedi" ar y coesau cefn; gall abdomen gwenynen dorri dail fenywaidd ymddangos yn felyn neu'n aur oherwydd y paill.



## Clorosis

Er ei bod yn ganol haf nid yw dail y fiaren hon yn edrych yn iach. Mae'n bosibl iawn ei fod yn dioddef o Gloriosis, cyflwr lle mae dail planhigion yn colli eu lliw gwyrdd ac yn troi'n wyrdd golau neu felyn gan ddechrau o'r ymylon neu rhwng y gwythiennau. Mae'n arwydd nad yw'r planhigyn yn gallu cynhyrchu digon o gloroffyl, y pigment gwyrdd sy'n hanfodol ar gyfer ffotosynthesis.  Mae hyn yn golygu bod gallu'r planhigyn i drosi golau'r haul yn egni yn cael ei beryglu. Gall diffygion mewn maetholion allweddol fel magnesiwm, sinc neu haearn a nitrogen i gyd achosi Clorosis.





## Parneriaeth Natur Sir Gâr

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

West Wales Biodiversity Information Centre / Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC)

National Botanic Garden of Wales / Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Coed Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

West Wales Rivers Trust / Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Wildlife Trust of South & West Wales

Llanelli Naturalists / Naturiaethwyr Llanelli

amphibian and reptile conservation

Bat Conservation Trust

Clwb Adar Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Bird Club

Plantlife

Carmarthenshire Meadows Group / Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / The National Trust

Pori Natur a Threftadaeth

Bumblebee Conservation Trust

buglife

Mid Wales Red Squirrel Partnership / Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch

WWT

Botanical Society of the British Isles

Butterfly Conservation Wales / Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru / Initiative for Nature Conservation Cymru